Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

Form

**LPA120**

# Cael cymorth i dalu ffioedd atwrneiaeth arhosol (LPA)

Defnyddiwch y ffurflen hon os ydych yn gwneud cais i gofrestru atwrneiaeth arhosol (LPA) neu atwrneiaeth barhaus (EPA).

Gallwch chi wneud cais am un o'r canlynol:

- **Gostyngiad** - talu hanner ffioedd yr atwrneiaeth.
- **Esemptiad** - peidio â thalu dim o ffioedd yr atwrneiaeth.

**Ble i anfon y ffurflen gyflawn:**

Postiwch i::

**Office of the Public Guardian**
**Blwch Post 16185**
**Birmingham**
**B2 2WH**

**E-bost: OPGRemEx@publicguardian.gov.uk**

# Ffioedd atwrneiaeth arhosol

Mae'r ffi am gofrestru atwrneiaeth arhosol (LPA) neu atwrneiaeth barhaus (EPA) yn cael ei thalu pan fyddwch yn anfon y ffurflen atwrneiaeth i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus. Mewn rhai amgylchiadau, mae gan roddwr hawl i dalu llai na'r ffi lawn am ei atwrneiaeth

Ystyr **gostyngiad** yw gostyngiad o 50%, ac mae'n seiliedig ar eu hamgylchiadau. Ystyr **esemptiad** yw nad oes rhaid i'r rhoddwr dalu unrhyw ffi. Y rheswm am hyn fel arfer yw eu bod yn derbyn rhai budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd.

### Faint fyddaf i'n ei dalu gyda gostyngiad?

Os oes gennych chi hawl i gael gostyngiad, byddwch yn talu £41 i wneud cais i gofrestru LPA neu EPA. Os ydych yn gwneud ail gais am LPA a bod gennych hawl i gael gostyngiad, fel y cytunwyd gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, byddwch yn talu £20.50 am LPA neu EPA.

**Mae'r ffi cais i gofrestru LPA yn cynyddu o £82 i £92, felly os ydych yn gymwys am ostyngiad, byddwch yn talu £46. O 17 Tachwedd, bydd unrhyw LPA a dderbynnir gan yr OPG sy'n gymwys am ostyngiad yn talu'r ffi newydd o £46. Bydd ceisiadau a dderbyniwn cyn y dyddiad hwn yn dal i gostio £41.**

## Esemptiad - peidio â thalu dim ffi

Efallai na fydd yn rhaid i'r rhoddwr dalu ffioedd atwrneiaeth os yw'n cael rhai budd-daliadau penodol sy'n dibynnu ar brawf modd ac na ddyfarnwyd iawndal anaf personol o fwy nag £16,000 iddo. Os dyfarnwyd iawndal anaf personol o fwy nag £16,000 iddo, a bod y swm hwn wedi'i anwybyddu pan gafodd ei asesu am y budd-dal, bydd yn rhaid iddo dalu ffi. Mae dyfarniadau iawndal yn cynnwys taliadau a geir o ganlyniad i esgeulustod troseddol neu feddygol.

### Tystiolaeth Dderbyniol:

Rhaid i chi anfon prawf o fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd atom, gan gynnwys teitl y rhoddwr, ei enw llawn, ei gyfeiriad a'r cod post. Mae'r math penodol wedi'i restru isod ar gyfer pob budd-dal. Hefyd, bydd angen llythyr neu hysbysiad gan ddarparwr y budd-dal yn cadarnhau'r swm y mae'r rhoddwr wedi ei gael. Rhaid cyflwyno tystiolaeth ar yr un pryd ag yr anfonir yr atwrneiaeth i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, a rhaid i'r dystiolaeth fod ar gyfer y flwyddyn ariannol gywir. Ystyr blwyddyn ariannol yw'r cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth.

| Budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd | Tystiolaeth a dderbynnir |
|---|---|
| Elfen Gwarant Credyd o'r Credyd Pensiwn | Dadansoddiad llawn yn nodi'r elfen sydd wedi'i gwarantu, gan ddangos y swm a'r dyddiadau pryd y cafwyd hynny |
| Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm | Dadansoddiad llawn yn dangos yr elfen o'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm, gyda'r swm a'r dyddiadau pryd y cafwyd hynny |
| Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm NEU Cymhorthdal incwm NEU Budd-dal Tai | Llythyr hawl yn dangos y swm a'r dyddiadau derbyn |
| Budd-dal treth gyngor | Llythyr hawl yn dangos y swm a'r dyddiadau pryd y cafwyd hynny, nid y gostyngiad o 25% i berson sengl nac esemptiadau eraill ar sail feddygol |
| Lwfans Tai Lleol | Llythyr hawl yn dangos y swm a'r dyddiadau derbyn |
| Credyd Treth i Bobl mewn Gwaith, wedi'i gyfuno â | Dadansoddiad llawn yn dangos credyd treth i bobl mewn gwaith ar y cyd ag un o'r canlynol:<br>• Credyd Treth Plant<br>• Elfen anabledd<br>• Elfen anabledd difrifol |

# Gostyngiad - talu hanner y ffi

Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu hanner y ffioedd yn unig os yw incwm blynyddol y rhoddwr cyn treth yn £12,000 neu lai.

## Tystiolaeth dderbyniol:

Rhaid i'r dystiolaeth a anfonwch gadarnhau math o incwm y rhoddwr, a'r swm. Rhaid i'r prawf gynnwys teitl y rhoddwr, ei enw llawn, ei gyfeiriad hysbys diwethaf a'r cod post.

**R**haid cyflwyno'r prawf ar gyfer y flwyddyn ariannol gywir. **Ystyr blwyddyn ariannol yw'r cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth.**

Nid ydym yn derbyn cyfriflenni banc fel yr unig brawf o incwm heb ddogfennau ategol gan ddarparwr y budd-daliadau neu daliadau.

| Math o Incwm | Prawf o Incwm |
|---|---|
| Cyflogaeth am dâl | Y tri slip cyflog olynol diwethaf o gyflogaeth gyfredol |
| Hunangyflogaeth | Y ffurflen dreth ddiweddaraf (hunanasesiad) neu gyfrifiad treth diweddaraf CThEF |
| Budd-daliadau nad ydynt yn dibynnu ar brawf modd | Megis Lwfans Gweini (AA), Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) a Thaliad Annibyniaeth Personol (PIP) – llythyr swyddogol neu hysbysiad gan y sawl sy'n talu |
| Pensiwn gwladol, pensiwn preifat neu bensiwn galwedigaethol, gan gynnwys arian pensiwn sy'n cael ei dynnu i lawr i'w ddefnyddio | P60, llythyr neu hysbysiad gan y darparwr pensiwn, neu ddau slip talu olynol sy'n cadarnhau'r swm gros a dalwyd |
| Llog a difidendau o gynilion, cyfalaf, stociau, cyfranddaliadau neu fondiau | Cyfriflenni, talebau neu dystysgrifau treth yn nodi cyfanswm incwm cyn treth |
| Incwm rhent o eiddo | Copïau o gytundebau tenantiaeth neu brydlesi ar gyfer pob eiddo yn dangos swm y rhent a delir ar hyn o bryd a pha mor aml<br>Y ffurflen dreth ddiweddaraf neu gyfrifiad treth diweddaraf CThEF |
| Incwm y mae'r rhoddwr wedi'i gael gan unigolion megis lletywr, tenant, plant nad ydynt yn ddibynnol, perthynas ac ati. | Copïau o'r datganiadau rhent a dalwyd i'r rhoddwr |
| Credyd Cynhwysol<br>(Os yw'r rhoddwr yn cael Credyd Cynhwysol ac nad yw cyfanswm ei incwm blynyddol cyn treth yn fwy na £12,000, gellir caniatáu gostyngiad o 50%.) | Datganiad swyddogol gan yr adran Gwaith a Phensiynau (DWP) neu sgrin wedi'i hargraffu o www.gov.uk/sign-in-universal-credit |

# Caledi

Os nad yw'r rhoddwr yn gymwys i gael gostyngiad yn y ffioedd ac y byddai talu ffioedd yn achosi caledi ariannol, gallwch wneud cais ysgrifenedig i'r ffioedd gael eu hepgor. Mae rhagor o wybodaeth am Geisiadau Caledi ar gael yn y canllawiau sydd gyda'r ffurflen hon.

# Adolygu penderfyniadau ynghylch esemptiad a gostyngiad

Os yw eich cais wedi cael ei wrthod a bod gennych reswm i gredu na ddylai fod wedi cael ei wrthod, gallwch ofyn am adolygiad o'r penderfyniad.

Rhaid derbyn y cais o fewn 28 diwrnod ar ôl dyddiad y llythyr a oedd yn nodi canlyniad eich cais gwreiddiol. Rhaid iddo gael ei gyflwyno'n ysgrifenedig, gan roi'r rhesymau pam eich bod yn gwneud cais am yr adolygiad. Dylech gynnwys unrhyw ddogfennau a fydd, yn eich barn chi, yn ategu eich cais.

Byddwn yn adolygu'r cais ac yn penderfynu a oes digon o dystiolaeth dros wrthdroi neu ddiwygio'r penderfyniad gwreiddiol. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am y penderfyniad o fewn 21 diwrnod. Os oes ffi yn dal i fod yn daladwy, cewch wybod am hyn hefyd.

Ni allwch wneud ceisiadau pellach i adolygu'r un cais.

# Sylwch:

Os na fyddwn yn cael y dystiolaeth sydd ei hangen i ategu eich cais, neu os nad yw'r dystiolaeth a gafwyd yn bodloni'r gofynion, efallai y byddwn yn ei gwrthod.

Efallai y byddwn yn gofyn am fwy o dystiolaeth i ategu eich cais. Os na fyddwch yn darparu hyn, efallai y bydd eich cais yn cael ei wrthod, a bydd yn rhaid i chi dalu'r ffi lawn am eich LPA.

# Sut mae gwneud cais

Anfonwch y ffurflen LPA120 a'r dystiolaeth ategol drwy e-bost i:

**OPGRemEx@publicguardian.gov.uk**

Neu, gallwch ei phostio i:

> **Office of the Public Guardian**
>
> **PO Box 16185**
>
> **Birmingham**
>
> **B2 2WH**

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, cysylltwch â ni:

**Telephone 0300 456 0300**

Ar agor 9:30am i 4pm ar ddyddiau'r wythnos, ac eithrio dydd Mercher 10am i 4pm

**Ffonio o tu allan i'r DU:** +44 (0)203 518 9639

**Relay UK (os na allwch glywed neu siarad dros y ffôn):** 18001 0300 123 1300

Rhaid i chi anfon eich cais LPA120 a'ch tystiolaeth ategol atom ar yr un pryd ag y byddwch yn anfon eich atwrneiaeth i wneud cais i gofrestru.

Gallwn dderbyn copïau drwy e-bost, wedi'u sganio neu gopïau ffotograffig o'r LPA120 a'r dystiolaeth ategol.

Gwnewch yn siŵr bod popeth yn glir ac yn hawdd ei ddarllen.

# Sut i dalu

## Ar-lein gan ddefnyddio cerdyn debyd neu gredyd

Os ydych chi'n gwneud eich LPA gan ddefnyddio'r adnodd digidol ar gyfer LPA, gallwch dalu'n ddiogel ar-lein gyda cherdyn credyd neu ddebyd.

## Dros y ffôn gan ddefnyddio cerdyn debyd neu gredyd

Os hoffech chi dalu fel hyn, nodwch hynny yn eich ffurflen gais neu lythyr eglurhaol ac fe gysylltwn â chi.

## Taliad siec

Gwnewch eich siec yn daladwy i 'Office of the Public Guardian' ac ysgrifennwch enw'r rhoddwr yn llawn ar y cefn.

# Fformatau eraill

I ofyn am y ffurflen hon mewn braille, sain neu brint bras, anfonwch e-bost atom yn:

**customerservices@publicguardian.gov.uk**

Cofiwch gynnwys eich cyfeiriad a'r fformat a ddymunwch.

Gadawyd y dudalen hon yn wag yn fwriadol

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

Form
# LPA120

# Cael cymorth i dalu ffioedd atwrneiaeth arhosol

## Adran 1
## Eich manylion

Teitl

Enw llawn

Cyfeiriad

Cod post

Ffôn (gan gynnwys ffonau symudol)

E-bost

**Os nad chi yw'r rhoddwr, nodwch eich rôl ar yr LPA neu'r EPA neu eich perthynas â'r rhoddwr.**

☐ Atwrnai ar yr LPA neu'r EPA

☐ Gohebydd ar yr LPA neu'r EPA

☐ Arall (rhowch fanylion isod)

**Os nad chi yw'r rhoddwr, rhowch enw a chyfeiriad y rhoddwr.**

Teitl ______ Enw llawn ______________________

Cyfeiriad

______________________

______________________

______________________

Cod post ______

Adran 2

# Y cais

**Pa ffi ydych chi'n gwneud cais am gymorth i'w thalu?**

☐ LPA ar gyfer eiddo a materion ariannol

☐ LPA ar gyfer lles personol

☐ EPA

☐ Ail gais am LPA eiddo a materion ariannol

☐ Ail gais am LPA lles personol

**Rhaid i chi gynnwys unrhyw LPAs neu EPA rydych chi am ei chofrestru gyda'r cais hwn, yn yr amlen**

☐ Ydw, rwyf wedi amgáu'r holl ddogfennau yr wyf am eu cofrestru

Os ydych chi'n gwneud cais am esemptiad (i beidio â thalu ffi), ewch i Adran 3.

Os ydych chi'n gwneud cais am ostyngiad (i dalu hanner ffi), ewch i Adran 4.

Adran 3

# Gwneud cais am esemptiad rhag talu'r ffi

Os yw'r rhoddwr yn cael unrhyw un o'r budd-daliadau canlynol, efallai na fydd yn rhaid iddo dalu ffi am ei atwrneiaeth. Rhaid iddo ddarparu tystiolaeth i ategu hyn.

Atebwch bob cwestiwn yn yr adran hon.

Ni allwch wneud cais am esemptiad ar sail: Lwfans Byw i'r Anabl (DLA), Lwfans Gweini (AA), Pensiwn y Wladwriaeth (SP) neu Daliad Annibyniaeth Personol (PIP)

**Pa rai o'r budd-daliadau hyn y mae'r rhoddwr yn eu derbyn?**

- [ ] Cymhorthdal incwm
- [ ] Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm (JSA)
- [ ] Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) yn gysylltiedig ag incwm
- [ ] Elfen Gwarant Credyd o'r Credyd Pensiwn
- [ ] Budd-dal Tai
- [ ] Credyd Treth Gwaith, ond ddim ond pan fo:
  - Credyd Treth Plant yn cael ei dalu i'r rhoddwr, neu i gwpl sy'n cynnwys y rhoddwr a / neu
  - Mae premiwm anabledd neu bremiwm anabledd difrifol (neu'r ddau) yn rhan o'r Credyd Treth Plant a dderbynnir gan y rhoddwr
- [ ] Cymorth gyda'r Dreth Gyngor/gostyngiad yn y Dreth Gyngor (nid yw hyn yn cynnwys disgownt oherwydd anabledd neu anfeddiannaeth nac esemptiad Dosbarth U)

**A yw'r rhoddwr wedi cael iawndal anaf personol?**

Os oedd unrhyw daliadau anaf personol dros £16,000, efallai na fydd y rhoddwr yn gymwys i gael esemptiad. Os oedd y taliadau dros £16,000, ond eu bod wedi cael eu hanwybyddu pan gafodd y rhoddwr ei asesu ar gyfer ei fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd, efallai y bydd yn dal yn gymwys.

**Cadarnhewch un o'r dewisiadau canlynol**

- [ ] Ni chafodd y rhoddwr unrhyw daliadau anaf personol
- [ ] Roedd y taliadau anaf personol a dderbyniodd y rhoddwr yn llai nag £16,000
- [ ] Roedd y taliadau dros £16,000, ond cawsant eu hanwybyddu pan gafodd y rhoddwr ei asesu ar gyfer budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd

Adran 4

## Gwneud cais am ostyngiad yn y ffi

Os yw cyfanswm incwm blynyddol y rhoddwr cyn treth (incwm blynyddol gros) yn llai na £12,000, efallai y bydd yn gymwys i dalu hanner ffi. Rhaid iddo ddarparu tystiolaeth i ategu hyn.

☐ Rwy'n cadarnhau bod incwm y rhoddwr yn llai na £12,000 cyn treth

I wneud cais am dalu hanner y ffi, rhaid i chi anfon tystiolaeth o incwm y rhoddwr cyn treth

Llenwch y tabl isod i gadarnhau incwm y rhoddwr o bob ffynhonnell.

| **Darparwr Taliad neu Fudd-dal** | **Derbyniadau Blynyddol** |
|---|---|
| Lwfans Gweini | £ |
| Lwfans Byw i'r Anabl | £ |
| Lwfans Annibyniaeth Bersonol (PIP) | £ |
| Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Gyfraniadau (ESA) | £ |
| Credyd Cynilion Pensiwn | £ |
| Pensiwn Gwladol | £ |
| Pensiynau preifat | £ |
| Property rental income | £ |
| Incwm rhent o eiddo | £ |
| Llog o fuddsoddiadau cyfalaf a chynilion | £ |
| Credyd Cynhwysol | £ |
| Math arall o incwm | £ |
| **Total** | **£** |

Adran 5

# Datganiad

**Rwy'n datgan bod yr wybodaeth yr wyf wedi'i rhoi yn gywir, hyd eithaf fy ngwybodaeth**

☐ Amgaeaf dystiolaeth i ategu'r cais hwn am leihau ffioedd atwrneiaeth arhosol

Llofnod

Enw

Dyddiad llofnodi

Diwrnod Mis Blwyddyn

Ni ellir derbyn cyfriflenni banc fel tystiolaeth heb ddogfennau ategol gan ddarparwr y budd-dal neu'r taliad